# Cryfach Tecach Gwyrddach

Cyngor Caerdydd 2022





CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# CRYFACH. TECACH. GWYRDDACH.

Dyma'r themâu sydd wedi diffinio gwaith y Cyngor dros y degawd diwethaf, a byddant wrth wraidd popeth a wnawn dros y 5 mlynedd nesaf.

**Dinas gryfach,** gydag economi sy'n creu ac yn cynnal swyddi sy'n talu'n dda, gyda system addysg sy'n helpu ein pobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gyda thai da, fforddiadwy mewn cymunedau diogel, hyderus a grymus, i gyd yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus effeithlon sydd ag adnoddau da.

**Dinas decach,** lle gall pawb fwynhau'r cyfleoedd o fyw yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u cefndir, lle mae'r rhai sy'n dioddef effeithiau tlodi yn cael eu diogelu a'u cefnogi, lle mae diwrnod teg o waith yn golygu diwrnod teg o gyflog, a lle mae pob dinesydd yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi.

**Dinas werddach,** a fydd drwy ein rhaglen Caerdydd Un Blaned yn arwain ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd, dinas sy'n dathlu ac yn meithrin bioamrywiaeth, gyda mannau agored o ansawdd uchel o fewn cyrraedd hawdd i orffwys a chwarae, dinas gysylltiedig â dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy cyfleus, hygyrch a diogel.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd dros y 5 mlynedd nesaf i wireddu'r uchelgais hon.

Ar bob tudalen o'r ddogfen hon, ym mhob portffolio, fe welwch ein hymrwymiadau i bobl ifanc ein dinas. Mae ein hymrwymiadau'n seiliedig ar ddarparu cymorth cynnar a chymorth i deuluoedd i bawb sydd ei angen, ar fynd â buddsoddi mewn ysgolion a gwella addysg i lefelau newydd a chefnogi'r pontio i fyd gwaith ac addysg bellach. Mae'r ymrwymiad wedi ei seilio ar ofalu am ein pobl ifanc fwyaf agored i niwed a sicrhau bod Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu ar gyfer pob person ifanc. Mae'n seiliedig ar gael parciau, mannau gwyrdd a mannau chwarae gwych i'n pobl ifanc, mynediad i asedau chwaraeon a diwylliannol ein prifddinas, a sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed yn ein penderfyniadau. Yn fyr, rydym yn rhoi ein plant a'n pobl ifanc wrth wraidd ein huchelgeisiau ar gyfer y ddinas.

Yn yr un modd, mae ein rhaglen yn cynnwys ymrwymiadau i gau'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn ein dinas a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw ar frys. Rydym wedi bod yn glir mai addysg yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi, ac mae angen i hyn gael ei ategu gan raglen a fydd yn sicrhau bod swyddi da yn parhau i fod ar gael yng Nghaerdydd - swyddi da, sy'n talu cyflog teg, gyda sicrwydd a'r cynnig o ddilyniant gyrfa - tra'n sicrhau'r cymorth sydd ei angen i gael gafael arnynt.

Byddwn yn mynd i'r afael ag argyfwng tai'r ddinas. Nid yn unig yr ydym wedi adeiladu'r cartrefi Cyngor cyntaf yng Nghaerdydd mewn cenhedlaeth, ond maent wedi bod yn gartrefi arobryn sydd wedi'u darparu fel rhan o un o raglenni adeiladu tai Cyngor mwyaf y DU. Ond rydym yn gwybod bod angen i ni fynd ymhellach a gweithredu'n gyflymach os ydym am ymateb i faint yr her sy'n wynebu'r ddinas o ran tai. Dyna pam yr ydym yn codi ein huchelgeisiau hyd yn oed yn uwch ac yn addo darparu 4,000 o gartrefi newydd erbyn 2030.

O dros 130 o bobl ar ei uchaf yn cysgu ar y stryd, a sgandal degau o bobl yn byw mewn pebyll ar ein strydoedd a'n parciau, dim ond 11 o bobl sy'n cysgu ar y stryd erbyn hyn. Mae hynny'n dal i fod yn 11 yn ormod, ond rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr ymagwedd radical a fabwysiadwyd gennym gyda phartneriaid yn ystod y pandemig yn 'fusnes fel arfer'. Does dim troi'n ôl.

Mae'r weinyddiaeth hon wedi ymrwymo i arwain ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Yr ydym eisoes yn cyflawni ein strategaeth Caerdydd Un Blaned. Mae fferm solar bellach yn darparu ynni adnewyddadwy glân i'r ddinas, y cyntaf o raglen o gynlluniau ynni sydd wrthi'n cael eu datblygu, ac mae ein cynlluniau tai yn ennill gwobrau cenedlaethol am eu gwydnwch yn wyneb her yr hinsawdd a'u hôl troed carbon isel. Ni welir y newid i sero net yn fwy amlwg yn unman arall na'n hymagwedd tuag at drafnidiaeth. Bydd dros 15 cilometr o feicffyrdd newydd yn cael eu cwblhau cyn bo hir, mae 36 o fysus trydan newydd wedi'u hychwanegu at fflyd o fysus y ddinas, ac mae cymunedau ledled y ddinas yn fwy diogel i gerddwyr a beicwyr yn sgil cyflwyno parthau 20mya. Mae hyn i gyd yn rhan o agenda drafnidiaeth drawsnewidiol a fydd yn newid sut mae pobl yn symud o amgylch

y ddinas drwy ei gwneud yn haws, yn fwy diogel, yn iachach ac yn rhatach i ddefnyddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym wedi dod drwy un o'r cyfnodau mwyaf heriol o fewn cof. Fel arweinydd y ddinas hon, ni allwn fod yn falchach o'r ffordd y daethom at ein gilydd i ymateb i'r pandemig. Er gwaetha'r holl heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, ac sy'n parhau i'n hwynebu, nid oes amheuaeth bod y pandemig wedi ennyn y gorau yn ein gwasanaethau cyhoeddus, busnesau, ein cymunedau a'n dinas. Ar ran y Cyngor a dinasyddion Caerdydd, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a chwaraeodd eu rhan.

Dyma'r amser i edrych i'r dyfodol gydag optimistiaeth, gan gymryd y brwdfrydedd a'r ysgogiad, y gwaith partneriaeth ac arloesi, yr angerdd a'r ymrwymiad a welwyd yn ein hymateb i'r pandemig ymlaen wrth adnewyddu'r ddinas.

Fel arweinydd y Cyngor hwn, mae'n fraint i mi gael gweithio gyda phobl dalentog ac ymroddedig sydd wedi ymrwymo i lwyddiant y ddinas hon: fy nghydweithwyr yn y Cabinet a'm cyd-Gynghorwyr; ein partneriaid gwasanaeth cyhoeddus; busnesau ac arweinwyr cymunedol a ffydd; fy nghydweithwyr yn yr undebau llafur; ein prifysgolion, ein harweinwyr ysgolion ac addysg bellach. Ac yn bwysicaf oll, pobl ein dinas wych.


Gyda'n gilydd, Tîm Caerdydd.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i gyd i wneud Caerdydd yn brifddinas Gryfach, Decach a Gwyrddach.

Diolch,



**Y Cynghorydd Huw Thomas**
**Arweinydd**
**Cyngor Caerdydd**



# ARWEINYDD CYNGOR CAERDYDD

# Y CYNGHORYDD HUW THOMAS

Gan adeiladu ar gynnydd y 5 mlynedd diwethaf, byddwn yn parhau i ddatblygu pwerdy o economi sy’n sicrhau ffyniant economaidd, nid yn unig i bobl a chymunedau Caerdydd, ond i’r wlad gyfan. Byddwn hefyd yn parhau i arwain yr ymateb i’r Argyfwng Hinsawdd drwy gyflymu’r broses tuag at ddod yn Gyngor sero-net a chynnull ymagwedd sy’n cwmpasu’r ddinas gyfan i ymdrin â newid yn yr hinsawdd. Ac, yn hollbwysig, byddwn yn gwneud Caerdydd yn ddinas decach, lle gall pawb, beth bynnag fo’u cefndir, fwynhau’r cyfleoedd a’r manteision a ddaw o fyw yng Nghaerdydd.

Bydd hyn yn golygu gweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector, ar draws pob lefel o Lywodraeth ac ar draws ffiniau rhanbarthol a chenedlaethol – i greu dinas gryfach, decach a werddach.



**Y Cynghorydd Huw Thomas**
**Arweinydd Cyngor Caerdydd**

# BYDDWN YN:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan i sicrhau bod Caerdydd yn cael ei chefnogi ac y manteisir yn llawn ar asedau economaidd a diwylliannol y brifddinas yn yr adferiad wedi'r pandemig.

- Drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gynnull cydweithredu ar draws gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth na ellir ond mynd i'r afael â hwy drwy gydweithio.

- Chwarae rhan flaenllaw yn y Brifddinas-Ranbarth, gan gynnwys datblygu strategaethau cynllunio, trafnidiaeth, llywodraethiant a threfniadau darparu a datblygu economaidd strategol, sy'n cefnogi rôl Caerdydd fel canolfan economaidd, ddiwylliannol a hamdden y rhanbarth.

- Cefnogi economi Caerdydd a'r Brifddinas-Ranbarth drwy sicrhau bod y Gronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn canolbwyntio ar y prosiectau strategol sy'n cyflawni ar gyfer y ddinas a'i rhanbarth.

- Gweithio gyda Phorth y Gorllewin i fuddsoddi mewn seilwaith strategol ar draws de Cymru a de-orllewin Lloegr, gan gynnwys gwella cysylltedd trenau a lleihau amseroedd teithio i Fryste, Abertawe a Llundain.

- Gweithio ochr yn ochr â'r Dinasoedd Craidd i sicrhau bod llais dinasoedd Prydain yn cael ei glywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan.

- Arwain prifddinas ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad a'i chefnogi yn ein hysgolion, ein gweithleoedd a'n cymunedau.

- Cyflwyno ymateb 'Caerdydd Un Blaned' i'r argyfwng hinsawdd, gan gyflymu'r broses o drosglwyddo i Sero Net drwy roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnawn fel Cyngor.

- Arwain partneriaeth gyda Phrifysgolion a sector Addysg Uwch ein dinas, gan ganolbwyntio ar fywyd a chymuned y myfyrwyr, ar ddatblygu economaidd, iechyd meddwl a diogelwch myfyrwyr a'r newid i sero net.

- Parhau i foderneiddio a chydgysylltu ein gwasanaethau cyhoeddus, gan gymryd arloesi yn yr ymateb i Covid-19 ymlaen i'r gwaith o adfer ac adnewyddu.



## PORTFFOLIO ADDYSG

# Y CYNGHORYDD SARAH MERRY

Credwn yn gryf mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi, ac, yn ei dro, fod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu arnom yn cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i wireddu eu potensial.  Dyna pam rydym wedi ymrwymo i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda, lle gall pob plentyn gael addysg wych.  Byddwn yn parhau â'n rhaglen fuddsoddi mewn adeiladau ysgol newydd ac adeiladau sy'n bod eisoes, yn parhau i wella cyrhaeddiad addysgol, ac yn cyflawni ein hymrwymiad i roi barn plant a phobl ifanc wrth wraidd ein hagenda bolisi drwy ddod y ddinas gyntaf yng ngwledydd Prydain i ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant.  Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi ffocws penodol ar gefnogi ein plant mwyaf agored i niwed, o'u cefnogi hwy a'u teuluoedd yn eu blynyddoedd cynnar drwy'r ysgol i fyd gwaith ac addysg uwch.



**Y Cynghorydd Sarah Merry**
**Addysg**

# BYDDWN YN:

- Sicrhau statws Dinas Sy'n Dda i Blant UNICEF erbyn diwedd 2022.
- Cefnogi pob ysgol yng Nghaerdydd i fod yn Ysgol sy'n Parchu Hawliau erbyn 2025.
- Sefydlu panel dinasyddion pobl ifanc er mwyn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor.
- Gosod gweledigaeth a strategaeth newydd ar gyfer addysg yng Nghaerdydd drwy adnewyddu strategaeth Caerdydd 2030.
- Cefnogi pob ysgol i fod yn barod i gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer ein dysgwyr mwyaf agored i niwed, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant mewn gofal, y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a phlant o'r cymunedau mwyaf difreintiedig.
- Cefnogi ysgolion i wella presenoldeb disgyblion yn dilyn pandemig Covid-19, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus.
- Sicrhau bod pob ysgol gynradd yn barod ac yn gallu darparu Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn.
- Agor campws newydd ar gyfer ysgolion Willows, Cathays, Cantonian, Fitzalan, ac Ysgol Uwchradd Caerdydd drwy 'Fand B' rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Agor hyd at wyth ysgol gynradd newydd a dwy ysgol uwchradd newydd erbyn 2030, wedi'u hariannu drwy'r Cynllun Datblygu Lleol.
- Darparu cyllid ychwanegol i gefnogi gwaith cynnal a chadw mewn ysgolion nad ydynt yn dod o fewn y Bandiau A-C.
- Buddsoddi mewn seilwaith digidol, offer a thechnolegau dysgu newydd ar gyfer ysgolion – gan anelu at gymhareb dyfeisiau TGCh fesul disgybl o 1:1.
- Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, gan gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn unol â Chymraeg 2050.
- Datblygu rhaglen Ysgolion Bro fel bod y cyfleusterau rhagorol sydd ar gael mewn ysgolion ar gael i'r gymuned ehangach.
- Ehangu a gwella Addewid Caerdydd, recriwtio cyflogwyr newydd, a chynnig ffyrdd newydd i ddisgyblion ysgol ymgysylltu â byd gwaith sy'n newid yn gyflym.
- Ymwreiddio'r Bartneriaeth Dechrau'n Dda ymhellach, sef ymagwedd ysgol gyfan ac amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, o gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl.
- Gweithredu argymhellion Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd, gan gynnwys:
  - Cefnogi'r gwaith o gynyddu amrywiaeth y gweithlu addysgu drwy raglen 'Camu i Addysgu' ar gyfer cynorthwywyr addysgu
  - Cynyddu cynrychiolaeth trigolion o leiafrifoedd ethnig mewn timau arwain ysgolion drwy raglen fynediad Llywodraethwyr Ysgol
  - Cryfhau'r ffyrdd yr ymdrinnir â bwlio a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn yr ysgol
  - Ymestyn gwaith Ysgolion Noddfa i rwydwaith ehangach o ysgolion a chefnogi cyfranogiad cymunedau ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- Rhoi Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar waith i atal trais a cham-drin ar sail rhywedd mewn lleoliadau addysg a lleoliadau ieuenctid eraill.
- Cynyddu maint y rhaglen 'Pasbort i'r Ddinas' er mwyn sicrhau bod pobl ifanc o bob cefndir yn gallu mwynhau'r amwynderau o'r radd flaenaf sydd gan Gaerdydd i'w cynnig.
- Cryfhau'r cymorth sydd ar gael yn ystod y gwyliau, gan gynnwys drwy ailadrodd y rhaglen Gwên o Haf a thyfu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol.

# PORTFFOLIO NEWID YN YR HINSAWDD

# Y CYNGHORYDD CARO WILD




Rydym yn byw mewn argyfwng hinsawdd. Deallwn fod angen gweithredu ar frys os ydym am osgoi'r peryglon sydd o'n blaenau a, thrwy ein Strategaeth Caerdydd Un Blaned, rydym wedi nodi ystod eang o gamau uchelgeisiol a fydd yn hwyluso'r pontio i ddod yn Gyngor sero net a Chaerdydd sero net mewn modd sy'n cefnogi economïau gwyrdd newydd a mwy o les cymdeithasol yn y ddinas.

Bydd y 5 mlynedd nesaf yn hollbwysig. Er mwyn cyflawni ein dyheadau Caerdydd Un Blaned bydd angen gweithredu ar draws popeth a wnawn. Bydd angen inni adnabod ffynonellau lleol o ynni adnewyddadwy, buddsoddi mewn trafnidiaeth gynaliadwy ac ôl-ffitio tai. Bydd angen i ni wella mannau gwyrdd ein dinas sydd eisoes yn rhagorol, uwchraddio ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd a gwella ein cyfraddau ailgylchu i fod ymhlith yr uchaf ar gyfer unrhyw ddinas yn unrhyw le. Wrth wneud hynny, gallwn wneud Caerdydd yn ddinas sy'n adnabyddus ledled y byd am weithredu ar y newid yn yr hinsawdd ac fel canolfan sy'n arwain y byd ar gyfer diwydiannau ac arloesi carbon isel.



Y Cynghorydd Caro Wild
Newid yn yr Hinsawdd

# BYDDWN YN:

- Datblygu mwy o brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr fel Fferm Solar Ffordd Lamby.
- Cwblhau Rhwydwaith Gwres cynaliadwy newydd, gan ddefnyddio'r gwres a gynhyrchir yn y gwaith Ynni o Wastraff i wresogi adeiladau ym Mae Caerdydd.
- Gweithio gyda busnesau a phrifysgolion i osod y rhanbarth fel canolfan sy'n arwain y byd ar gyfer diwydiannau carbon isel ac arloesi.
- Arwain y ddadl ar y potensial ar gyfer ynni'r llanw yn Aber Afon Hafren drwy Gomisiwn Annibynnol Porth y Gorllewin.
- Newid pob un o'r 24,000 o oleuadau preswyl i oleuadau LED ynni isel gan arbed 836 tunnell o CO2 a thros £400k y flwyddyn.
- Cyhoeddi cynllun gweithredu, gan gynnwys set o dargedau lleihau carbon blynyddol, a fydd yn gosod Cyngor Caerdydd ar y llwybr i fod yn sefydliad sero-net erbyn 2030, gan gynnwys:
  - Lleihau effaith carbon ein swyddfeydd craidd, ein ystadau ehangach a cherbydau'r Cyngor
  - Newid ein fflyd i fflyd o gerbydau trydan neu allyriadau isel.
  - Lleihau ôl troed carbon y bwyd sy'n cael ei weini ar draws ein hystâd a'n gwasanaethau.
  - Datgarboneiddio ein cadwyn gyflenwi.
- Gweithio gyda'r llywodraeth i gryfhau amddiffynfeydd llifogydd arfordirol Caerdydd, yn enwedig yn nwyrain y ddinas.
- Lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd o afonydd a dyfrffyrdd a sicrhau bod dull dalgylch rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i reoli dŵr.
- Cyflawni cynllun seilwaith gwyrdd uchelgeisiol y Cyngor, gan sicrhau bod ein hymagwedd at seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth yn ymateb i strategaeth Caerdydd Un Blaned a'r argyfwng natur.
- Buddsoddi mewn rhagor o gynlluniau draenio lleol a chynaliadwy i ddiogelu ein cymunedau rhag tywydd eithafol a llifogydd sydyn.
- Gwneud Caerdydd yn ddinas sy'n arwain y byd ar gyfer ailgylchu drwy gyflawni perfformiad ailgylchu o 70%.
- Symud tuag at economi fwy cylchol a lleihau maint y gwastraff drwy sicrhau bod mwy o adnoddau'n cael eu hailddefnyddio a bod adnoddau'n aros yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:
  - Tynnu 27m o fagiau ailgylchu gwastraff o wasanaeth gwastraff y Cyngor bob blwyddyn.
  - Gweithio gyda lleoliadau mawr i gael gwared ar gynhyrchion plastig untro.
  - Datblygu cynlluniau ar gyfer Canolfannau Ailddefnyddio ac Uwchgylchu.
- Gweithio ochr yn ochr â dinasyddion a chymunedau i ddatgloi gweithredu dinesig, a rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer casglu sbwriel yn lleol a mentrau a arweinir gan y gymuned.
- Sicrhau bod pob ward yng Nghaerdydd yn cyrraedd y safonau uchaf o ran glendid stryd, gyda chefnogaeth rhaglen gynhwysfawr o adlinio i wasanaethau Strydlun y Cyngor.
- Mynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon drwy recriwtio staff rheng flaen ychwanegol i gryfhau gweithgarwch Addysg a Gorfodi ac edrych ar fesurau pellach fel treialu Swyddogion Diogelu'r Gymuned.
- Arwain rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall y rhwystrau i newid ymddygiad a dylunio dulliau arloesol o gefnogi pobl i leihau eu hôl troed carbon.



## PORTFFOLIO DIWYLLIANT, PARCIAU A DIGWYDDIADAU

# Y CYNGHORYDD JENNIFER BURKE-DAVIES

Mae ein parciau a'n mannau gwyrdd, yn ogystal â  a sîn diwylliant, adloniant a chwaraeon ein prifddinas yn rhan fawr o'r hyn sy'n gwneud Caerdydd yn lle mor wych i fyw ynddo.  Roedd y pandemig a'r cyfyngiadau symud yn tanlinellu pa mor bwysig yw ein parciau i'n hiechyd, ein hapusrwydd a'n lles.   Dyna pam y byddwn yn buddsoddi yn ein parciau a'n mannau gwyrdd, gan ganolbwyntio ar wella'r rheini yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

Yng Nghaerdydd, mae gennym seilwaith diwylliannol a chwaraeon a all gynnal digwyddiadau rhyngwladol mawr, a thalent a lleoliadau creadigol a chwaraeon lleol i gystadlu ag unrhyw ddinas.  Wrth i ni ailadeiladu'r economi ddiwylliannol, chwaraeon a digwyddiadau ar ôl Covid, byddwn yn cyflwyno rhaglen newydd i ddod â digwyddiadau mawr i Gymru, a thrwy weithio gydag artistiaid a cherddorion lleol, byddwn yn hyrwyddo talent leol, yn cadw lleoliadau lleol ac yn datblygu digwyddiad arwyddocaol newydd sy'n cyflwyno'r gorau o Gaerdydd a Chymru i'r byd.




Y Cynghorydd Jennifer Burke-Davies
Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau

# BYDDWN YN:

- Sicrhau Gwobr y Faner Werdd ychwanegol bob blwyddyn o'r weinyddiaeth – gan ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd uchel – gan gymryd nifer y Parciau Baner Werdd o 15 i 20.
- Cadw Castell Caerdydd ar agor fel parc cyhoeddus.
- Cyflwyno ein prosiect Coed Caerdydd gyda phlannu coed torfol parhaus a chreu coetiroedd newydd, gan godi canopi coed ac ardaloedd bioamrywiol y ddinas o 19 % i 25 % o gyfanswm y defnydd tir yma.
- Tyfu ein gweithlu parciau a choetiroedd drwy fuddsoddiad a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer prentisiaethau a grwpiau gwirfoddol.
- Cwblhau ymarfer Mapio Meysydd Chwarae a gweithredu ar ei argymhellion i sicrhau bod buddsoddiad newydd mewn offer chwarae a mannau chwarae newydd yn cael ei gyfeirio at yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd newydd sy'n canolbwyntio ar natur ar gyfer Ynys Echni.
- Cefnogi Caerdydd i ddod yn Ddinas Parc Cenedlaethol.
- Parhau i gyflawni ein Strategaeth Dinas Gerdd i gefnogi a meithrin creu cerddoriaeth ar bob lefel, gan gefnogi Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd i weithredu argymhellion cytûn adroddiad Sound Diplomacy.
- Defnyddio ein gwaith ar y Strategaeth Gerddoriaeth fel templed ar gyfer Strategaeth Ddiwylliannol newydd sy'n canolbwyntio ar gefnogi a dathlu talent greadigol Caerdydd.
- Datblygu llif newydd o ddigwyddiadau mawr wedi'u hangori o amgylch gŵyl gerddoriaeth ar gyfer artistiaid lleol.
- Cais i fod yn ddinas gynhaliol ar gyfer pencampwriaethau pêl-droed Ewro 2028, gan gynnwys sefydlu rhaglen etifeddiaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc.
- Gweithio gyda lleoliadau celfyddydol a diwylliannol i ddod yn fwy hygyrch i deuluoedd a phlant fel rhan o'r cynllun 'Pasbort i'r ddinas'.
- Sicrhau bod Neuadd Dewi Sant yn cadw ei safle fel awditoriwm o'r radd flaenaf.
- Gweithio gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i gyflwyno dyfodol newydd i'r Hen Lyfrgell fel gofod perfformio a dysgu.
- Ymchwilio i gronfa waddol celf gyhoeddus.
- Ceisio adrodd straeon grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn well yng ngherfluniau a chelf gyhoeddus y ddinas.
- Cyflwyno strategaeth cyfranogiad chwaraeon newydd sy'n canolbwyntio ar gynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith cymunedau a grwpiau sydd â llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Rhoi blaenoriaeth o ran gofodau ac asedau cyhoeddus i glybiau a sefydliadau lleol a chefnogi clybiau chwaraeon cymunedol, gyda phwyslais arbennig ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol megis menywod a merched, cymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a'r gymuned LHDTC+.
- Parhau â'n buddsoddiad mewn canolfannau hamdden, gan gynnwys adnewyddu Canolfan Hamdden Pentwyn a darparu cyfleusterau caeau 3G ychwanegol.

## PORTFFOLIO CYLLID, MODERNEIDDIO A PHERFFORMIAD

# Y CYNGHORYDD CHRIS WEAVER



Mae dinasoedd llwyddiannus, gyda chymunedau iach, diogel a hyderus, wedi'u hadeiladu ar sylfaen gadarn gwasanaethau cyhoeddus rhagorol. Fel Cyngor, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn iawn ac ar gyflawni perfformiad da, gan sicrhau bod trigolion yn cael y profiad gorau posibl pan fyddant yn defnyddio ein gwasanaethau.

Roedd pandemig Covid-19 yn gyfnod o her fawr ac o arloesi mawr yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Roedd cymhlethdod y materion yr oeddem yn mynd i'r afael â hwy yn ymestyn ar draws ffiniau gwasanaethau a sefydliadau. Roedd angen i arbenigwyr technegol a rheolwyr, o amryfal ddisgyblaethau yn gweithio mewn amrywiaeth o sefydliadau, gydweithio i ddatrys problemau bob dydd, gan ddefnyddio technolegau digidol yn aml mewn ffyrdd newydd. Byddwn yn cario'r diwylliant arloesi hwn ymlaen i'r gwaith o adfer ac adnewyddu, gyda thechnolegau digidol, sgiliau ac arweinyddiaeth yn cael eu dwyn i'r amlwg.

Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio graddfa a maint llawn y Cyngor fel grym er lles cymdeithasol ac amgylcheddol, gan bennu'r safonau i bob sefydliad arall eu dilyn. Bydd hyn yn golygu gwneud y mwyaf o effaith gymdeithasol ein gwariant, cyflymu'r symudiad i sero net ac arwain y ffordd fel cyflogwr 'Gwaith Teg'.



**Y Cynghorydd Chris Weaver**
**Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad**

# BYDDWN YN:

- Adeiladu ar newid ac arloesi'r ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn parhau i foderneiddio'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu.

- Cau'r bwlch yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf a chefnogi gwasanaethau y mae effaith hirdymor Covid yn amharu arnynt er mwyn addasu i ffyrdd cynaliadwy newydd o weithio.

- Mabwysiadu gweithio hybrid fel rhan o'n busnes beunyddiol ar draws pob rhan o'r Cyngor, gan ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol a hyblyg i staff a dinasyddion wrth leihau costau asedau, ynni a thrafnidiaeth y Cyngor.

- Rhoi ffocws o'r newydd ar brofiad dinasyddion o'n gwasanaethau o ran cynllunio a pherfformiad ein gwasanaethau, a gosod safonau uchel ar gyfer gofal cwsmeriaid ar draws holl adrannau'r Cyngor.

- Cynyddu nifer gwasanaethau'r Cyngor sydd ar gael i ddinasyddion drwy lwyfannau digidol a, lle bo'n briodol, sicrhau bod atebion digidol ac awtomeiddio yn cael eu defnyddio i roi gwasanaethau digidol 'o'r dechrau i'r diwedd'.

- Cyflawni Strategaeth Ddata'r Cyngor, gan wneud y defnydd gorau o ddata'r Cyngor i gefnogi gwella perfformiad, datrys problemau a gwella'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- Parhau i hyrwyddo'r Cyflog Byw Go Iawn ar draws pob sector a chyflogwr, gan gynyddu nifer y cyflogwyr cyflog byw achrededig yn y ddinas.

- Sicrhau bod Cyngor Caerdydd yn gyflogwr 'Gwaith Teg' a lleihau ein defnydd o staff asiantaeth ymhellach drwy eu trosglwyddo i gontractau parhaol.

- Cyflawni argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, cefnogi llwybrau dilyniant gyrfa ar gyfer gweithwyr o leiafrifoedd ethnig a sicrhau bod gweithlu cynhwysol ac ymgysylltiedig gennym sy'n adlewyrchu amrywiaeth fawr cymunedau Caerdydd.

- Datgarboneiddio cadwyni cyflenwi'r Cyngor drwy adolygu'r carbon a fewnforir drwy ein rhaglen gaffael.

- Cryfhau ein Strategaeth Gaffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol i sicrhau bod y Cyngor yn gwario'n lleol ac yn fwy hygyrch i BBaChau (Busnesau Bach a Chanolig), tra'n creu cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth newydd.

- Defnyddio ein grym prynu i hybu hawliau gweithwyr a gwella safonau amgylcheddol.

- Cefnogi lles staff, gan roi pwyslais penodol ar gefnogi iechyd meddwl staff.

# PORTFFOLIO TAI A CHYMUNEDAU

# Y CYNGHORYDD LYNDA THORNE



Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng tai yng Nghaerdydd, fy mlaenoriaeth fydd ehangu ar ein rhaglen adeiladu cartrefi Cyngor, cartrefi sydd wedi ennill gwobrau. Dros y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi adeiladu 706 o gartrefi Cyngor, ond dros y 5 nesaf mae angen i ni fynd ymhellach ac yn gyflymach. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar helpu'r rhai sy'n rhentu yn y sector preifat, gyda rhenti'n codi a safonau'n rhy aml yn rhy isel, gan gynnwys cefnogi'r rhai sy'n dioddef o ganlyniad i'r sgandal cladin.

Yn ystod y pandemig, gwnaethom gymryd camau radical i helpu pobl oddi ar ein strydoedd. Gostyngodd nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd o dros 100 i lai na 10, a bwriadwn ei gadw'n isel, gan ddefnyddio ein hymagwedd ataliol, amlasiantaethol tuag at gefnogi pobl oddi ar y strydoedd.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein cymunedau, drwy ein rhwydwaith cynyddol o Hybiau Cymunedol a Lles a thrwy raglen well o gynlluniau adfywio canolfannau cymunedol ac ardal. Yn gysylltiedig â hyn, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Heddlu i sicrhau bod cymunedau yng Nghaerdydd yn ddiogel, yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a, gyda'n gilydd, yn gwneud popeth o fewn ein gallu i atal pobl, yn enwedig ein pobl ifanc, rhag syrthio i droseddu neu gael eu hecsbloetio gan droseddwyr.



**Y Cynghorydd Lynda Thorne**
**Tai a Chymunedau**

# BYDDWN YN:

- Darparu rhaglen estynedig o godi tai Cyngor i gynyddu'r stoc o dai Cyngor gan o leiaf 1,500 o unedau, gan ganolbwyntio ar gartrefi di-garbon.
- Cynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau carbon drwy raglen Ôl-ffitio Effeithlonrwydd Ynni Tai ar draws pob deiliadaeth tai, gan gyrraedd 2,000 o ôl-ffitiadau domestig y flwyddyn erbyn 2024.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid er mwyn helpu i fynd i'r afael â chost rhentu yn y sector preifat a chodi safonau, gan gynnwys archwilio dichonoldeb tai a arweinir gan y gymuned ac i godi taliadau pellach ar eiddo gwag.
- Parhau i gefnogi dioddefwyr y sgandal Cladin/Diogelwch Tân, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu ymyriadau ymarferol megis gosod systemau chwistrellu tân lle bo hynny'n briodol a phwyso ar ddatblygwyr i gynnig iawndal.
- Parhau â'n dull 'Dim Mynd Nôl' i gadw cysgu ar y stryd ar y lefelau isaf erioed.
- Mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar drawma ac ar iechyd y cyhoedd i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl sy'n agored i niwed, yn enwedig y rhai sydd wedi arfer byw ar y stryd.
- Gwella ansawdd ein llety â chymorth gan gynnwys darparu'r cynlluniau tai â chymorth ar gyfer pobl sengl yn Adams Court ac ar gyfer teuluoedd yn Harrison Drive.
- Atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc a sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael cymorth, gan gynnwys:
  - adolygu a chyngor ar symud ymlaen a gwasanaethau cyfryngu
  - adolygu a chynyddu capasiti o fewn llety porth i bobl ifanc
  - a datblygu cynllun tai â chymorth Citadel ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- Ehangu ein rhaglen Adfywio Cymdogaethau a chyhoeddi strategaeth newydd i gefnogi canolfannau ardal a lleol, yn seiliedig ar egwyddorion creu lleoedd dinasoedd 15 munud.
- Darparu hyd yn oed mwy o Hybiau Cymunedol a Lles gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar ardaloedd â lefelau mynediad is, gan gynnwys Hyb Ieuenctid yng nghanol y ddinas a darpariaeth newydd yn Hyb Ieuenctid Trelái; a Hybiau Iechyd a Lles newydd yn y Maelfa, Trelái a Chaerau ac ar safleoedd cynllunio strategol.
- Darparu pentref lles aml-genhedlaeth 'Coleg Llanfihangel', gan ddod â thai i bobl hŷn a theuluoedd a chyfleusterau iechyd, tai a chymunedol at ei gilydd mewn un prosiect cynaliadwy a thrawsnewidiol.
- Datblygu tai i bobl hŷn sy'n cefnogi byw'n annibynnol ledled y ddinas, gan gynnwys fflatiau sy'n barod am ofal yn Nhredelerch, y Maelfa a Llaneirwg a fflatiau yn Nhreganna, Stryd Bute a Heol y Morfa.
- Creu cymunedau mwy gwydn drwy ehangu'r dull grŵp datrys problemau amlasiantaethol wedi'i dargedu ar gyfer mannau lle ceir problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys defnyddio teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd problemus.
- Cymeradwyo, mewn partneriaeth ag aelodau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, Strategaeth Atal Trais newydd sy'n canolbwyntio ar atal pobl ifanc rhag mynd i droseddu neu i ddioddef o gamfanteisio troseddol.
- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a chymryd camau i gryfhau'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr, gan gynnwys cytuno ar strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'i diweddaru a chynnal adolygiad llawn o lety lloches yn y ddinas erbyn mis Mawrth 2023.
- Parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth San Steffan am arian ychwanegol i dalu am gost plismona ein prifddinas, fel sy'n wir ym mhrifddinasoedd eraill y DU.

## PORTFFOLIO BUDDSODDI A DATBLYGU

# Y CYNGHORYDD RUSSELL GOODWAY




Mae'r newyddion am farwolaeth dinasoedd, y clywyd llawer o sôn amdano yn ystod y pandemig, wedi'i orliwio'n fawr. Er y bydd gweithio gartref ac ystwyth yn effeithio ar sut mae dinasoedd yn cael eu defnyddio gan fusnesau a gweithwyr, a bydd yn rhaid i ganol dinasoedd addasu i'r newid i fanwerthu ar-lein, bydd crynhoi, arloesi a chreadigrwydd yn parhau i sbarduno twf economaidd a swyddi. Fel dinas graidd Cymru, bydd Caerdydd yn parhau i chwarae rôl arweiniol yn economi Cymru ar ôl Covid.


Bydd y Cyngor yn gweithio gyda busnesau a buddsoddwyr lleol i arwain adferiad ac adnewyddiad yn economi'r ddinas. Bydd momentwm yn cael ei feithrin o'r newydd gyda rhaglen uchelgeisiol o adfywio canol y ddinas, gan gwblhau'r gwaith o drawsnewid Bae Caerdydd a datblygu parc diwydiannol newydd yn nwyrain y Ddinas. Byddwn yn creu'r amgylchedd iawn i'n busnes cynhenid lwyddo tra'n gweithio gyda phartneriaid i ddenu cwmnïau newydd, arloesol i Gaerdydd. Gyda'n gilydd, byddwn yn adeiladu economi gryfach, decach a gwyrddach, gan sicrhau mwy o fuddsoddiad, busnesau cryfach ac, yn y pen draw, mwy o swyddi gwell i bobl Caerdydd.



**Y Cynghorydd Russell Goodway**
**Buddsoddi a Datblygu**

# BYDDWN YN:

- Darparu'r Arena Dan Do 17,000 sedd newydd ym Mae Caerdydd.
- Hwyluso'r gwaith o ailddatblygu Metro Canolog a'r Cei Canolog.
- Hwyluso'r gwaith o ailddatblygu Cwr y Gamlas yn gynhwysfawr, gan gynnwys ailagor y gamlas a chreu mannau cyhoeddus a masnachol newydd ar Ffordd Churchill.
- Gweithio gyda phartneriaid i sefydlu trefniadau rheoli canol dinas newydd i gadw canol y ddinas yn ddiogel, yn lân ac yn fywiog.
- Darparu felodrom newydd fel rhan o gam datblygu newydd yn y Pentref Chwaraeon.
- Cyflwyno cynigion i ddiogelu ac adfywio adeiladau hanesyddol yn y Bae.
- Archwilio'r potensial ar gyfer gwelliannau yng nghynnig twristiaeth busnes Caerdydd.
- Gweithio gyda phartneriaid y Fargen Ddinesig, y sector preifat a Bwrdd Iechyd y Brifysgol i ddatblygu cynnig i greu Campws Parc Gwyddoniaeth newydd yn Coryton.
- Cefnogi'r gwaith o gwblhau Parc Caerdydd a chwblhau pont newydd Llanrhymni fel rhan o'n Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer dwyrain y ddinas.
- Cefnogi busnesau lleol a busnesau newydd fel rhan o ffocws ar yr economi sylfaenol, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid i ddenu buddsoddiad i mewn i arloesi a mannau cychwyn busnes ledled y ddinas.
- Ymgysylltu'n agos â'r sectorau manwerthu a lletygarwch i'w galluogi i adnewyddu'n llwyddiannus ar ôl Covid a gwella'r gwaith o hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan i ymwelwyr drwy sefydlu strategaeth ddigwyddiadau newydd.
- Darparu ystâd eiddo'r Cyngor sy'n llai trwchus ac yn wyrddach, gan gynnwys lleihau yr ôl troed carbon 30% a chynhyrchu £25m mewn derbyniadau cyfalaf drwy werthu tir ac asedau erbyn diwedd 2025/26.



## PORTFFOLIO GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

# Y CYNGHORYDD NORMA MACKIE
# Y CYNGHORYDD ASH LISTER

Ein huchelgais yw i Gaerdydd fod yn lle y gall pawb ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, a bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o wireddu hyn. Byddwn yn sicrhau bod Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud i fywyd y ddinas a byddwn yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i'w helpu i gadw'n heini ac yn gysylltiedig â'u cymuned ac i gefnogi eu lles corfforol a meddyliol parhaus. I'r rhai sydd, yn anffodus, yn dioddef iechyd gwael, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w helpu i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain – a'r tu allan i'r ysbyty neu leoliad gofal – cyhyd ag y bo modd.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i wella dyfnder a chyrhaeddiad ein gwasanaethau iechyd meddwl, ac yn hollbwysig, yn ceisio buddsoddi mewn lefel uwch o gymorth cynnar a chwnsela i atal, nid ymateb i argyfyngau.  Byddwn yn cefnogi'r rheini sydd ag anableddau dysgu a'u gofalwyr drwy sicrhau bod ein gwasanaethau dydd lleol a'n cymorth seibiant yn diwallu eu hanghenion yn llawn. Er mwyn gwneud hyn i gyd, bydd angen parhau â'r gwaith partneriaeth agosach fyth gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, gyda darparwyr gofal, gyda chymdeithas ddinesig a'r rhai sy'n derbyn gofal.  Ac, yn anad dim, bydd angen buddsoddi, dathlu a gwerthfawrogi ein gweithlu gofal cymdeithasol diflino, sy'n llawn tosturi ac ymroddiad.



Y Cynghorydd Norma Mackie
Gwasanaethau Cymdeithasol (Arwain ar Wasanaethau Oedolion)



Y Cynghorydd Ash Lister
Gwasanaethau Cymdeithasol (Arwain ar Wasanaethau Plant)

## Gwasanaethau Oedolion

# BYDDWN YN:

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn lle gallant fwynhau pob agwedd ar fywyd a pharhau i chwarae rhan werthfawr a gweithgar.
- Hyrwyddo a dathlu Caerdydd yn dod y Ddinas gyntaf yng Nghymru i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd sy'n Dda i Bobl Hŷn, a gweithio ar draws y Cyngor a Gwasanaethau Partner i gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer gwneud rhywle'n lle gwych i dyfu'n hŷn
- Sicrhau bod systemau Diogelu Oedolion effeithiol ar waith ledled y ddinas.
- Adeiladu cymunedau cadarn a bywiog, gan roi cyfleoedd i bawb gymryd rhan, gwirfoddoli a chefnogi eraill i gadw mewn cysylltiad.
- Creu dinas sy'n agored ac yn hygyrch i bawb, a gweithio tuag at greu system drafnidiaeth y mae hyder gan bawb i'w defnyddio
- Parhau i weithio tuag at ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia sy'n helpu pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd i ffynnu.
- Gwrando ar leisiau pobl hŷn, gan ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg iawn i'w cefnogi i fyw'n annibynnol gartref a bod yn weithgar yn eu cymunedau cyhyd ag y bo modd, gan gynnwys defnyddio technoleg, cymhorthion ac addasiadau.
- Gwella mynediad at wasanaethau cymorth a lles cynnar i bobl sy'n dioddef o les meddyliol gwael, gan nodi'r rhai sydd angen help a darparu ystod eang o gymorth i atal argyfwng.
- Cefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol i adennill eu hyder ac ailadeiladu eu bywydau, gan wella'r gwasanaethau presennol a defnyddio arfer gorau o lefydd eraill i adnabod a datblygu'r cymorth sydd ei angen.
- Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw mor annibynnol â phosibl ac i ymgysylltu â'u cymunedau, drwy ddatblygu amrywiaeth o opsiynau llety a chymorth lleol, gan hefyd gefnogi eu gofalwyr drwy ehangu ein gwasanaethau dydd anghenion cymhleth a'n darpariaeth seibiant dros nos.
- Gwella ymwybyddiaeth a datblygu gwasanaethau ymhellach ar gyfer pobl ag awtistiaeth, gan sicrhau bod cymorth priodol ar gael wedi'i deilwra i anghenion unigol.
- Cefnogi pobl ifanc â phrofiad o ofal wrth iddynt symud i fod yn oedolion, gan wella ein gwasanaethau fel rhiant corfforaethol i'w cefnogi i gyrraedd eu potensial yn llawn.
- Gwrando ar ofalwyr di-dâl a theuluoedd i roi'r cymorth sydd ei angen arnynt yn well.
- Dathlu a chefnogi'r gweithlu Gofal Cymdeithasol, gan gydnabod gwerth y gwaith a wnânt a sicrhau bod y ffordd rydym yn comisiynu gwasanaethau yn rhoi cyfleoedd ar gyfer boddhad swyddi a datblygu gyrfa.
- Datblygu'r Academi Gofalwyr Caerdydd lwyddiannus ymhellach i feithrin gallu yn y sector gofal
- Parhau i symud tuag at fodelau gweithio ardal i ddwyn gwasanaethau amlddisgyblaethol sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau lleol ynghyd i hybu iechyd a lles, cefnogi annibyniaeth ac atal derbyniadau diangen i'r ysbyty.
- Gweithio gyda darparwyr gofal i fynd ati i lunio'r farchnad ofal, gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pobl Caerdydd heddiw, ac yn ymateb i anghenion yfory, gan gynnwys cynyddu'r gofal arbenigol o ansawdd uchel i bobl sy'n byw gyda dementia neu gyflyrau iechyd cymhleth eraill.
- Rhoi cymorth ychwanegol ar waith i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol a staff arbenigol eraill, gan eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol o ansawdd da.



# PORTFFOLIO GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dylai Caerdydd fod yn lle gwych i bob plentyn cael ei fagu, yn ddieithriad. Yn anffodus, nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae gormod o blant a theuluoedd yn ein dinas yn byw mewn tlodi ac mae nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd fydd ein blaenoriaeth gyntaf oherwydd fe wyddom fod canlyniadau plant orau pan gânt eu cefnogi i dyfu o fewn eu teuluoedd eu hunain. Pan fydd angen ein gofal ar blant, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w cadw gyda'u teuluoedd ehangach ac mor agos i'w cartrefi â phosibl. Unwaith eto, gwyddom fod hyn yn arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc, ac mae'n ddull llawer mwy cost-effeithiol, gan sicrhau bod yr adnodd sydd gennym yn mynd i'r lle sydd ei angen fwyaf - cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd.

Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda phartneriaid i wella'r gwasanaethau i'r plant hynny sydd yn neu sydd wedi dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid, gan leihau nifer y plant sy'n dod i mewn i'r system a'r rhai sy'n aildroseddu. Wrth wraidd ein gwaith y mae'r ffaith mai plant yw'r rhain yn gyntaf, a dim ond yn eilbeth yw eu bod yn blant sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid. Rwyf wedi ymrwymo i weithio ochr yn ochr â'r holl bobl yn y ddinas - ein gweithwyr cymdeithasol, athrawon, gweithwyr ieuenctid, nyrsys, meddygon a swyddogion yr heddlu - sy'n gweithio bob dydd gyda phlant a phobl ifanc, yn enwedig y plant hynny sydd fwyaf agored i niwed, er mwyn helpu i wneud Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu.

## Gwasanaethau Plant


# BYDDWN YN:

- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a theuluoedd drwy ein Rhaglen Cymorth Cynnar.
- Gweithio i gadw plant yn ddiogel gyda'u teuluoedd, gan gefnogi eu hanghenion twf a datblygiad a helpu i atal yr angen am ofal.
- Cynyddu nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli gyda'u teuluoedd neu eu cymuned ehangach, a lleihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli mewn lleoliadau gofal preswyl drud, y tu allan i'r sir
- Cynyddu nifer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol a lleihau ein dibyniaeth ar leoliadau asiantaethau maethu annibynnol.
- Parhau i ddatblygu a sefydlu dull ardal o ddarparu gwasanaethau ar draws timau rheoli achosion.
- Dathlu gwaith gweithwyr cymdeithasol ein plant a hyrwyddo gwaith cymdeithasol fel gyrfa wych.
- Parhau i ddatblygu a chefnogi gweithlu'r Gwasanaethau Plant, gan recriwtio a chadw mwy o weithwyr cymdeithasol yng Nghaerdydd.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r farchnad gofal cymdeithasol i blant, gwella ansawdd a chael gwared ar elw o ofalu am blant.
- Gweithio gydag ysgolion a'r gwasanaeth iechyd i ddarparu dull gwell a chydgysylltiedig – o gwnsela mewn ysgolion i gymorth argyfwng – ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael.
- Cwblhau'r gwaith o gyflawni cynllun datblygu 'Ein Dyfodol Ni i Gyd' a gosod strategaeth newydd ar gyfer parhau i wella'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
- Amddiffyn pobl ifanc sy'n agored i niwed rhag cael eu hecsbloetio a mynd i'r afael â'r cynnydd diweddar mewn trais difrifol gan bobl ifanc drwy ddatblygu dull cadarn, integredig sy'n cael ei arwain gan ddata ar draws y Cyngor a gwasanaethau partner sy'n gweithio gyda phobl ifanc.
- Cyflawni Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2021-24 i sicrhau bod plant yn ein gofal yn ddiogel, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, bod ganddynt ddyheadau uchel, eu bod yn gallu mynegi eu barn ac yn barod i fyw'n annibynnol.
- Grymuso'r holl bobl ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Plant i chwarae rôl actif a chanolog yn y gwaith o gynllunio at ddod yn oedolyn.
- Defnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r data sydd gennym ar draws y Cyngor a'r gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu 'Un Golwg' o'r cysylltiadau sydd gan bob plentyn neu berson ifanc â'n gwasanaethau.

# PORTFFOLIO TRECHU TLODI, CYDRADDOLDEB AC IECHYD Y CYHOEDD

# Y CYNGHORYDD JULIE SANGANI

# Y CYNGHORYDD PETER BRADBURY




Mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb hirdymor wrth wraidd ein holl ymrwymiadau polisi. Y flaenoriaeth dros y 5 mlynedd nesaf fydd helpu ein trigolion gyda'r argyfwng costau byw a chau'r bwlch anghydraddoldeb sydd, mewn llawer o achosion, wedi'i waethygu gan y pandemig diweddar. Fel y gwnaethom drwy gydol y pandemig Covid, byddwn yn sicrhau bod rhagolygon hirdymor plant a phobl ifanc ar flaen ein meddwl a'n penderfyniadau.

Byddwn felly yn sicrhau bod gennym wasanaeth ieuenctid gwych ar gael ledled y ddinas, gan ddiwallu anghenion plant ar draws ein gwahanol gymunedau. Byddwn yn darparu cyfleoedd iddynt gael mynediad at gyfleusterau chwarae modern, cael profiadau a chael eu cefnogi i gael hyfforddiant a chyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol. Bydd hyn yn golygu bod y swyddi a'r cyfleoedd a ddaw drwy ein rhaglen uchelgeisiol o adeiladu tai ac adfywio'r ddinas yn cyflawni ar gyfer pobl ifanc a chymunedau lleol.

Gan adeiladu ar y cydweithio rhagorol rhwng gwasanaethau cyhoeddus dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a helpodd Gaerdydd i ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus, byddwn yn parhau i gydweithio i fynd i'r afael â'r niwed ehangach a achoswyd gan y pandemig a'r problemau sy'n bodoli eisoes sy'n effeithio ar iechyd a lles ein poblogaeth.

Byddwn hefyd yn parhau i ddathlu amrywiaeth ei chymunedau. Mae ieithoedd, diwylliannau, crefyddau - a bwydydd! - ein dinas yn ffynhonnell o gryfder mawr a'r hyn sy'n gwneud Caerdydd yn lle mor groesawgar a hael i fyw ynddo. A byddwn yn parhau, fel y gwnaethom erioed, i groesawu pobl i wneud eu cartrefi ac adeiladu bywydau newydd yn ein dinas, gan gefnogi ar frys y rhai sy'n dianc rhag y gwrthdaro yn Wcráin.



**Y Cynghorydd Julie Sangani**
**Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd (Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd)**



**Y Cynghorydd Peter Bradbury**
**Trechu Tlodi, Cydraddoldeb ac Iechyd y Cyhoedd (Trechu Tlodi a Chefnogi Pobl Ifanc)**

# BYDDWN YN:

- Cyflwyno Strategaeth Cyfranogiad Cymunedol newydd, gan ymhelaethu ar leisiau pobl sydd ar hyn o bryd yn llai tebygol o gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

- Fel Dinas Noddfa, croesawu a chefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i adeiladu bywyd newydd yng Nghaerdydd a Chymru, gan eu cefnogi i gymryd rhan a chyfrannu at fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y brifddinas, gan gynnwys parhau i arwain ymateb y ddinas i argyfyngau Wcráin ac Affganistan.

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i gyflawni gweithgarwch wedi'i dargedu er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled y ddinas, gan gynnwys:
  - Cynyddu nifer y plant sy'n cael eu himiwneiddio.
  - Cynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio am ganser y coluddyn.
  - Mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant.

- Ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol a'u rhoi ar waith yn llawn.

- Datblygu rhwydwaith 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' ledled y ddinas ar gyfer cyflogwyr i annog arfer da a chydweithio, yn enwedig i gefnogi gweithredu yn y gweithle.

- Adeiladu ar ein gwobr Statws Aur Stonewall fel rhan o'n hymrwymiad i gynwysoldeb LHDTC+, gyda'r nod o ddod ymhlith 100 cyflogwr gorau Stonewall a'r awdurdod lleol uchaf yng Nghymru ym Mynegai Stonewall.

- Mabwysiadu egwyddorion y Confensiwn ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod a dod yn Ddinas CEDAW.

- Hyrwyddo bwyd iach, lleol a charbon isel, gyda mwy o ffocws ar weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â thlodi bwyd.

- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cais Caerdydd i fod y Lle Bwyd Cynaliadwy Aur cyntaf yng Nghymru.

- Datblygu cynlluniau i sicrhau bod prydau ysgol yn iach ac yn dibynnu ar gadwyni cyflenwi mwy cynaliadwy a charbon-isel.

- Ymateb i argymhellion yr adolygiad annibynnol ar y Gwasanaethau Ieuenctid, gan sicrhau bod mynediad i'r gwasanaeth ar gael yn deg ar draws y ddinas tra hefyd yn ymateb i anghenion gwahanol gymunedau a grwpiau o bobl ifanc.

- Darparu Parth Ieuenctid yn Nhrelái ac archwilio partneriaethau arloesol eraill i gefnogi gwasanaethau ieuenctid yn y ddinas.

- Integreiddio gwasanaethau chwarae yn well yn ein cynnig ehangach i bobl ifanc.

- Ymateb i'r argyfwng costau byw, gan sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt a'u bod yn eu hawlio.

- Buddsoddi yn ein Gwasanaethau i Mewn i Waith a dod â gwasanaethau cymorth cyflogaeth ehangach at ei gilydd o dan un gwasanaeth a all helpu pobl i gael gwaith neu hyfforddiant.

- Defnyddio llwyddiant cynlluniau Academi Gofalwyr Caerdydd a Chaerdydd ar Waith fel glasbrint i fodloni unrhyw ofynion newydd neu sy'n dod i'r amlwg ymhlith gweithlu'r ddinas;

- Gweithio ochr yn ochr â phrosiectau adfywio mawr, gan gynnwys yr Arena Dan Do newydd, i gefnogi pobl leol i'r swyddi newydd y bydd y prosiectau'n eu creu.


- Cyflwyno'r gwasanaeth Dysgu i Oedolion newydd a all helpu pobl i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

- Cefnogi'r galw mawr am swyddi gwag yn y diwydiant adeiladu drwy ddatblygu'r Academi Adeiladu ar y Safle ymhellach a chreu Grŵp Tasglu gyda chynrychiolaeth o blith contractwyr, asiantaethau recriwtio, cymdeithasau masnach a chymdeithasau tai i ystyried dyfodol gwaith a sgiliau yn y sector.

- Parhau i gefnogi prentisiaethau newydd a chyfleoedd i hyfforddeion o fewn y Cyngor, gyda'r nod o gael dros 500 o brentisiaethau erbyn 2025.

## PORTFFOLIO TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIO STRATEGOL

# Y CYNGHORYDD DAN DE'ATH



Ein huchelgais ar gyfer trafnidiaeth yw trawsnewid yn sylfaenol y ffordd y mae pobl yn symud o amgylch y ddinas, gan leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat tra'n ei gwneud yn haws, yn fwy diogel ac yn rhatach i bobl gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn golygu mwy o lonydd beiciau, lonydd bysus, a ffyrdd 20MYA, gorsafoedd a llwybrau metro newydd, ac ymrwymiad i docynnau bws cost isel newydd. Bydd hyn i gyd yn gwneud cyfraniad pendant at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo twf economaidd cynhwysol.

Fel Cyngor, mae gennym hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth lunio sut y caiff y ddinas ei datblygu. Mae angen inni fod yn cynllunio heddiw ar gyfer Caerdydd yfory, dinas sy'n lle gwell fyth i fyw, gweithio ac astudio ynddo nag ydyw ar hyn o bryd, ac a fydd yn gallu gwrthsefyll heriau'r degawd nesaf, yn bwysicaf oll yr argyfwng hinsawdd. Felly, byddwn yn cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol newydd i helpu i siapio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf, gan sicrhau bod y datblygiad cywir – tai, trafnidiaeth, tir cyflogaeth – yn digwydd yn y lle iawn ar yr adeg iawn, mewn ffordd gydlynol a all fod o fudd i gymunedau, diogelu'r amgylchedd a thyfu'r economi mewn ffordd gynaliadwy.



**Y Cynghorydd Dan De'ath**
**Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol**

# BYDDWN YN:

- Cwblhau cam cyntaf Cledrau Croesi Caerdydd, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng canol y ddinas a'r Bae.
- Nodi cynlluniau ar gyfer gorsafoedd newydd yn Heol y Crwys, Butetown, Llaneirwg, Felindre, Melin Trelái, Parc y Rhath, Gabalfa a Heol Casnewydd.
- Gwella trafnidiaeth bysus yn sylweddol drwy gyflwyno mesurau â mwy o flaenoriaeth, gwasanaethau newydd, a gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno tocyn bws safonol gwerth £1.
- Datblygu a chytuno ar Strategaeth Fysus newydd ar gyfer Caerdydd.
- Cwblhau'r pum llwybr beicio strategol, gan gynnwys llwybr llawn i Gasnewydd.
- Sicrhau bod cydymffurfio â gwerth Terfyn NO2 yr UE yn cael ei gynnal ar Stryd y Castell a chymryd camau lle bynnag y bo angen i sicrhau ansawdd aer da ledled Caerdydd.
- Parhau i ddatblygu gwelliannau trafnidiaeth ac aer glân yng nghanol y ddinas gan gynnwys cwblhau'r gwaith ailgynllunio yn y Sgwâr Canolog ac o'i amgylch, yn nwyrain canol y ddinas ac ar y Boulevard de Nantes.
- Parhau i gefnogi'r sectorau bysus a thacsis i gyflymu tuag at gyflawni fflydoedd heb allyriadau pibell fwg cyn 2028.
- Gwneud ein cymunedau'n iachach ac yn fwy diogel drwy fabwysiadu dull ataliol pobl yn gyntaf o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd drwy wneud pob ardal breswyl yn 20MYA ac archwilio dulliau gorfodi newydd.
- Meithrin diwylliant teithio llesol cryf ym mhob ysgol yng Nghaerdydd drwy ddarparu cynlluniau seilwaith i hwyluso teithiau llesol i ysgolion a chyflwyno mesurau i atal teithio mewn ceir i'r ysgol.
- Parhau i gyflwyno rhaglen helaeth o welliannau lleol i'n ffyrdd a'n troedffyrdd er mwyn cael gwared ar ddiffygion fel tyllau ffyrdd.
- Ystyried ac adolygu opsiynau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd i nodi cyfleoedd a manteision i drigolion Caerdydd a sicrhau gwelliannau i drafnidiaeth.
- Datblygu ymgyrch ledled y ddinas i hyrwyddo Teithio Llesol
- Nodi cyfleoedd ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel ar draws canolfannau lleol allweddol
- Datblygu Safleoedd Parcio a Theithio ar draws y ddinas
- Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Caerdydd a fydd yn helpu i greu dinas deg, iach, haws byw ynddi, gynaliadwy a charbon isel.
- Gweithio gydag awdurdodau cyfagos i gytuno ar Gynllun Datblygu Rhanbarthol newydd wedi'i lunio ar egwyddor datblygu sydd wedi ei seilio ar ddulliau teithio.
- Diogelu'r lletem las o amgylch Caerdydd.
- Diogelu mannau lleol ar gyfer natur – yn enwedig mewn ardaloedd trefol - drwy ganllawiau cynllunio llymach a nodi tir lleol ar gyfer prosiectau tyfu lleol.
- Mabwysiadu rheolaethau llawer llymach ar Dai Amlfeddiannaeth a phwyso am ddiwygio System yr Arolygiaeth Gynllunio ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC).
- Mabwysiadu egwyddorion uwchgynllunio cadarn i sicrhau y gellir dwyn datblygwyr yng Nghaerdydd i gyfrif am eu cyfraniad at ddiwallu anghenion cymunedau, gwella trafnidiaeth, darparu tai fforddiadwy a darparu seilwaith gwyrdd.
- Diogelu a dathlu adeiladau lleol fel tafarndai, mannau cymunedol a lleoliadau cerddoriaeth - yn enwedig y rhai sy'n gyfoethog i hanes dosbarth gweithiol y ddinas - drwy gryfhau ein rheoliadau cynllunio a pharhau i lobïo Llywodraeth Cymru am bwerau cryfach.
- Mynd i'r afael ag eiddo sy'n wag yn yr hirdymor drwy ystyried Premiwm Treth Gyngor 300%
- Mabwysiadu egwyddorion dinasoedd 15 munud, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd, creu lleoedd, a dwysedd o ran datblygiadau y mae'r weledigaeth hon yn eu mynnu.
- Ehangu cyfranogiad a hygyrchedd wrth gynllunio'r ddinas a sicrhau bod llwyfannau priodol ar gyfer ymgysylltu ac i leisiau cymunedol yn nyluniad y ddinas.
- Cyhoeddi strategaeth Dinas Glyfar Caerdydd sy'n nodi sut y bydd technolegau a data digidol yn gwella gwasanaethau a seilwaith y ddinas.
- Integreiddio egwyddorion dylunio gwych, creu lleoedd, gwyrddu a chynaliadwyedd ym mhob cynnig ar gyfer datblygu a mannau cyhoeddus.
- Darparu Cartref Cŵn modern fydd wedi ei wella'n sylweddol.





Lluniau © visitwales.com

CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

CARDIFF
CAERDYDD